Cyngor Sir Ddinbych – Y Gwasanaethau Addysg a Phlant

Addysg Ddewisol yn y Cartref

Protocol

Dyluniwyd y wybodaeth hon i helpu rhiant/rhieni/gofalwr/gofalwyr sydd naill ai'n ystyried addysgu eu plentyn/plant yn y cartref neu sydd eisoes yn addysgu eu plentyn/plant yn y cartref. Cyfeirir at hwn fel 'addysg heblaw' yn Adran 7 Deddf Addysg 1996.

Dyma rai pethau i chi meddwl amdanynt yn y lle cyntaf:

Gwnewch y canlynol:

- Meddyliwch yn hir ac yn galed. Chi a dim ond chi fydd yn gyfrifol am sicrhau bod eich plant yn cael addysg eang a chytbwys sy'n addas i'w hoedran, dawn a gallu;
- Cynlluniwch yr hyn y bwriadwch ei wneud gyda'ch plant cyn gwneud penderfyniad;
- Ystyriwch y costau sydd ynghlwm – llyfrau, cyfarpar, mynediad i arholiadau, ymweliadau, tiwtoriaid;
- Cofiwch y gallai'ch plant golli'r agwedd gymdeithasol ar yr ysgol sy'n cynnwys gweithgareddau, gwaith grŵp, cyfeillgarwch, yn ogystal â mynediad i gyfleusterau a chyfarpar arbenigol.
- Meddyliwch yn ofalus oherwydd gallai pwysau sylweddol am leoedd ysgol olygu y bydd eich plentyn/plant yn methu dychwelyd i'w hysgol flaenorol ar ôl cael eu tynnu allan.

Peidiwch â phenderfynu addysgu'ch plant yn y cartref oherwydd:

- Nad ydych chi wedi bod yn anfon eich plant i'r ysgol yn brydlon nac yn gyson;
- Bod eich plant wedi bod yn rhoi pwysau arnoch chi i'w caniatáu i aros adref;
- Oherwydd y cawsoch anghytundeb gyda Phennaeth, aelod o staff neu lywodraethwr ysgol;

Os oes unrhyw un o'r uchod yn berthnasol i chi neu'ch teulu, hwyrach bod modd datrys y materion trwy gysylltu â'r Swyddog Cynhwysiant yng Ngwasanaethau Addysg a Phlant yr Awdurdod Lleol ar 01824 708064.

Beth mae angen i fi fod yn siŵr ohono cyn gwneud penderfyniad?

- Bod eich plant yn gadarnhaol ynghylch y penderfyniad
- Rydych chi wedi'ch argyhoeddi mai dyma'r cam gorau ar gyfer eich plant
- Bod gennych yr amser i'w ymroi i addysg eich plant yn gyson
- Bod gennych y gallu angenrheidiol i addysgu'ch plant yn effeithiol
- Rydych chi'n barod i brynu'r adnoddau angenrheidiol neu fod gennych fynediad iddynt.
- Bod cefnogaeth ar gael i chi
- Bod gennych le ar gael at ddibenion ardal weithio dawel
- Bod cyfleoedd i wneud ymarfer corff
- Y profiadau cymdeithasol gyda phlant eraill sydd ar gael

Cyfrifoldebau'r Rhieni
Mae gan bob rhiant ddyletswydd i sicrhau bod eu plant yn cael addysg amser llawn, effeithlon sy'n addas i'w hoedran, gallu a dawn, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd **neu** addysg heblaw yn yr ysgol (**dan Adran 7 Deddf Addysg 1996**). Fodd bynnag, mae'r gyfraith yn caniatáu rhieni i addysgu eu plant yn y cartref yn hytrach na'u hanfon i'r ysgol, os ydyn nhw'n diwallu amodau penodol. Hwyrach y bydd y canllawiau canlynol yn ddefnyddiol i rieni wrth iddynt ystyried addysgu eu plant yn y cartref.

Pan fydd rhiant yn penderfynu tynnu eu plant allan o'r ysgol i'w haddysgu yn y cartref, mae'n bwysig iddynt roi gwybod i'r ysgol y mae'r plant wedi'u cofrestru ynddi. Yna, bydd yr ysgol yn tynnu enw'r plant oddi ar y gofrestr ac yn rhoi gwybod i'r awdurdod addysg lleol (ALl) **ymhen 10 niwrnod gwaith**. Er nad yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith i'r rhieni roi gwybod i'w Hawdurdod Lleol, awgrymwn fod y rhieni'n gwneud hynny er mwyn sicrhau bod eu Hawdurdod Lleol yn ymwybodol o'r newid. Yn ogystal, argymhellir bod y rhiant/rhieni'n rhoi gwybod i'w Hawdurdod Lleol hefyd am unrhyw newidiadau sylweddol yn eu hamgylchiadau sy'n berthnasol i addysg effeithiol eu plant e.e. newid cyfeiriad, newid rhif cysylltu neu gyfeiriad e-bost.

Cyfrifoldebau'r ALl
Bydd yr ALl yn cadw cofrestr o ddisgyblion sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Bydd hyn yn galluogi'r Swyddogion i gysylltu gyda rhieni i gynnig cefnogaeth ac i weithio mewn partneriaeth.

Bydd yr ALl yn gofyn am gwrdd â'r teulu er mwyn siarad â'r rhieni ac i edrych ar enghreifftiau o waith a dysgu. **Nid oes gan yr ALl hawl awtomatig i fynd i mewn i gartref rhiant**. Fodd bynnag, gall rhieni ganiatáu mynediad i'w cartref os dymunant neu gellir cynnig lleoliad arall am gyfarfod. Yn y cyfarfod cyntaf, dylai natur ac amledd y cyswllt i'r dyfodol gael ei gytuno - fel rheol, cyswllt blynyddol fydd hwn. Lle mae'n ymddangos i'r ALl nad yw plant o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg amser llawn effeithlon nac addas, naill ai trwy fynychu'r ysgol yn gyson neu fel arall, mae dyletswydd ar yr ALl i roi rhybudd i'r rhieni'n gofyn iddynt fodloni'r awdurdod fod eu plant yn cael addysg addas "heblaw yn yr ysgol". Os na fydd ymateb y rhieni'n foddhaol, neu os byddant yn methu ymateb, gallai'r ALl gyhoeddi Gorchymyn Mynychu'r Ysgol **(dan adran 437(1) Deddf Addysg 1996).** Gallai'r ALl wneud cais i'r Llys hefyd am asesiad plentyn/plant dan **Ddeddf Plant 1989**, os oes ganddynt achos rhesymol am wneud hynny.

O gael gwybod am rieni a allai fod yn addysgu yn y cartref, yn enwedig y plant hynny sydd heb gofrestru mewn ysgol erioed o bosibl neu sydd wedi symud i mewn i'r Sir, **gallai'r** ALl ofyn i Swyddog Lles Addysg ymweld â'r cartref a nhw fydd y cyswllt cyntaf. Mae **SA36A** Deddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i wneud y canlynol:
a) Dynodi pob dysgwr o oedran ysgol gorfodol sydd heb gofrestru yn yr ysgol ac sydd heb gael addysg heblaw yn yr ysgol
b) Cadarnhau ydy'r dysgwyr hynny'n cael addysg addas.

Cofiwch:
Os ymddengys nad yw plentyn o oedran ysgol gorfodol yn cael addysg addas, gall yr Awdurdod Lleol roi rhybudd ysgrifenedig yn gofyn i'r rhiant ddarparu tystiolaeth fod y plentyn yn cael addysg addas. Os na ddaw ymateb i law ymhen 15 niwrnod, gall yr Awdurdod Lleol gyhoeddi gorchymyn mynychu'r ysgol i sicrhau addysg addas.

Cysylltu:
Ar ôl i'r Awdurdod Lleol gael rhybudd o fwriad rhiant i dynnu ei blentyn allan a dewis ei addysgu yn y cartref, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi'r weithdrefn ganlynol ar waith ymhen 10 niwrnod gwaith:

i. Diweddaru'n cofnodion yn unol â hynny.
ii. Cysylltu â'r rhiant/gwarcheidwad i rannu'r Protocol Addysg Ddewisol yn y Cartref, Canllawiau Llywodraeth Cymru ac er mwyn anfon holiadur cychwynnol (i'w lenwi a'i ddychwelyd ymhen 15 niwrnod gwaith)
iii. Cysylltu â'r ysgol i gadarnhau bod enw'r plentyn wedi'i dynnu oddi ar gofrestr yr ysgol a sicrhau bod yr ysgol yn llenwi Ffurflen Wybodaeth yr Ysgol: Addysg Ddewisol yn y Cartref.
iv. Cysylltu ag asiantaethau eraill i geisio cael eglurhad o unrhyw ymwneud â'r plentyn:
    a. Y Gwasanaeth Lles Addysg
    b. Y Tîm Anghenion Dysgu Ychwanegol
    c. Y Gwasanaeth Cymorth Ymddygiad
    d. Y Gwasanaeth Seicoleg Addysgol
    e. Y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid
    f. Y Gwasanaethau Plant
v. Yn dilyn yr uchod, bydd y Swyddog Cynhwysiant yn trefnu cynnig cyfarfod gyda'r rhiant a'r plentyn yng nghyfeiriad y cartref, neu mewn lleoliad arall sy'n gyfleus i bawb.
vi. Ar ôl y cyfarfod, bydd y Swyddog Cynhwysiant yn coladu adroddiad a fydd yn cael ei anfon allan i'r rhiant yn amlinellu'r drafodaeth a'r camau nesaf.

Yn lle cyfarfod
Gallai'r rhieni ddymuno gwrthod cyfarfod yn y cartref neu mewn lleoliad arall. Os dyma yw'r achos, bydd yr Awdurdod Lleol yn gofyn i'r rhiant ddarparu tystiolaeth iddynt fod addysg amser llawn, addas yn digwydd. Gallai hyn fod ar ffurf:

- Enghreifftiau o waith
- Adroddiad yn amlinellu'r ddarpariaeth sydd ar waith
- Copi o amserlenni
- Cael cymeradwyaeth trydydd parti cydnabyddedig i'w darpariaeth
- Rhoi tystiolaeth ar ffurf briodol arall o'r addysg sy'n cael ei darparu.

Addasrwydd
Lle nad yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon fod plentyn yn cael addysg addas, bydd yr Awdurdod Lleol:

- Yn cysylltu â'r rhieni ar bapur, gan esbonio'r pryderon a'r rhesymau am gasglu bod y ddarpariaeth sydd ar waith yn anaddas, a rhoi rhybudd i'r rhieni'n gofyn iddynt ddarparu tystiolaeth fod addysg addas yn cael ei chynnal ymhen 15 niwrnod gwaith.
- Os nad oes ymateb, neu os bydd yr ymateb yn anfoddhaol, bydd llythyr arall yn cael ei anfon. Bydd y llythyr yn cynnwys rhybudd sy'n datgan pa ysgol fydd yr Awdurdod Lleol yn ei henwi mewn gorchymyn mynychu'r ysgol ac yn rhoi saith niwrnod i'r rhieni, cyfle i ddewis ysgol arall neu ddarparu tystiolaeth o addysg addas.
- Os nad oes ymateb, bydd Gorchymyn Mynychu'r Ysgol yn cael ei gyhoeddi sy'n enwi'r ysgol y dylid cofrestru'r plentyn ynddi.

Cofiwch: Os bydd rhiant y rhoddwyd Gorchymyn Mynychu'r Ysgol iddo'n methu cydymffurfio â gofynion y Gorchymyn, mae'n euog o drosedd dan Adran 442 Deddf Addysg 1996.

Plant gyda Datganiadau o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)
Gall plant a phobl ifanc gyda datganiadau o anghenion addysgol arbennig gael eu haddysgu yn y cartref. Pan fydd gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig sy'n enwi ysgol **arbennig, ni** ellir tynnu enw'r plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol honno heb gytundeb yr awdurdod addysg.

Mae Adran 7 Deddf Addysg 1996 yn cydnabod hawl rhieni i ddewis addysgu eu plant yn y cartref. Disgrifir y trefniadau hynny fel 'addysg heblaw yn yr ysgol'. Yn yr achosion hynny, **os oes gan blentyn ddatganiad o anghenion addysgol arbennig, mae'n parhau i fod yn ddyletswydd ar yr ALl i sicrhau bod anghenion y plentyn yn cael eu bodloni**. Rhaid i'r datganiad aros mewn grym a rhaid i'r ALl sicrhau y gall rhieni wneud darpariaeth addas, gan gynnwys darparu ar gyfer anghenion addysgol arbennig y plant. Os ydy trefniadau'r rhieni'n addas, caiff yr ALl ei ryddhau o'i ddyletswydd i drefnu'r ddarpariaeth a benodir yn y datganiad. Fodd bynnag, os ydy ymdrechion y rhieni i addysgu eu plant yn y cartref yn arwain at ddarpariaeth ddiffygiol o ran diwallu anghenion y plant, yna nid yw'r rhieni'n gwneud 'trefniadau addas' ac ni all yr ALl gasglu ei fod wedi'i ryddhau o'i gyfrifoldeb i drefnu'r ddarpariaeth yn y datganiad. Hyd yn oed os ydy'r ALl yn fodlon, mae'n parhau i fod yn ddyletswydd ar yr ALl i gynnal datganiad y plentyn **a'i adolygu'n flynyddol**, gan ddilyn y gweithdrefnau a osodwyd yn y Cod Ymarfer Anghenion Arbennig, 2004, Pennod Naw.

Yn y sefyllfaoedd hynny, nid yw adran 324 (4A) Deddf Addysg 1996 yn gofyn bod **enw** ysgol yn cael ei nodi yn Rhan 4 y datganiad. Dylai rhan 4 ddatgan y math o ysgol y mae'r ALl yn ei hystyried yn briodol ond mae'n mynd ymlaen i ddweud: "*bod rhieni wedi gwneud eu trefniadau eu hunain dan adran 7 Deddf Addysg 1996."* Yn ogystal, gall y datganiad nodi unrhyw ddarpariaeth y mae'r ALl wedi'i chytuno dan adran 319 i helpu rhieni i ddarparu addysg addas ar gyfer eu plant yn y cartref.

Yn achos plant yr ystyrir bod ganddynt Anghenion Addysgol Arbennig, bydd yr Awdurdod yn ystyried pob ymgeisydd ar wahân. Gan fod y fath achosion yn gymhleth iawn ar y cyfan, mae'n amhosibl delio â'r ystod eang o amgylchiadau yn y ddogfen hon.

Datgofrestru o'r ysgol
Os ydy'r plant neu os cafodd y plant eu haddysgu mewn ysgol a gynhelir a bod y rhieni'n dymuno eu tynnu allan i'w haddysgu yn y cartref, rhaid i'r rhieni roi gwybod i'r ysgol ar bapur er mwyn iddynt allu tynnu enwau'r plant oddi ar y gofrestr. Bydd Rhif Unigryw'r Disgybl wedi'i glustnodi i'r plant ac mae'n bwysig felly bod yr ysgol a'r ALl yn ymwybodol o unrhyw newidiadau rhag ofn bydd y plant yn dychwelyd i addysg mewn ysgol yn y dyfodol.

Os nad ydy'r plentyn wedi mynd i'r ysgol erioed, ni fydd Rhif Unigryw'r Disgybl wedi'i glustnodi iddo ac er nad oes gofyniad statudol ar rieni sy'n addysgu yn y cartref i gofrestru eu plant gyda'r ALl, cânt eu hannog yn gryf i wneud hynny oherwydd bydd hyn yn galluogi'r ALl i gyflawni ei ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Gellir rhannu gwybodaeth gydag awdurdodau priodol i sicrhau iechyd a lles pobl ifanc o oedran ysgol gorfodol. Er enghraifft, gallai'r Gwasanaeth Iechyd gael gael gwybod er mwyn sicrhau bod eich plant yn elwa ar sgrinio a brechiadau lles rheolaidd.

Costau addysgu yn y cartref
Anogir rhieni'n gryf i gynllunio ymlaen llaw a meddwl yn ofalus am y costau sy'n gysylltiedig ag addysgu plant yn y cartref (yn enwedig yn y tymor hwy pan allent ddymuno sefyll arholiadau cyhoeddus).

Nid oes arian ar gael yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru i rieni sy'n penderfynu addysgu eu plant yn y cartref. Nid oes dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarparu cymorth ariannol i rieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref.

Diogelu
Nid yw rhieni sy'n dewis addysgu eu plant yn y cartref yn lliniaru cyfrifoldeb yr awdurdod lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles pob plentyn.

Mae lles a diogelwch pob plentyn, boed y rheiny'n blant sy'n mynd i'r ysgol neu'n cael eu haddysgu mewn ffyrdd eraill, yn hollbwysig ac mae cyfrifoldeb ar y gymuned gyfan. Yn yr un modd â phlant a addysgir yn yr ysgol, gallai materion amddiffyn plant godi mewn perthynas â phlant a addysgir yn y cartref. Os daw unrhyw bryderon amddiffyn plant i'r fei yn ystod ymgysylltiad gyda phlant a theuluoedd, bydd y pryderon hyn yn cael eu hatgyfeirio i'r awdurdodau priodol gan ddefnyddio protocolau sefydledig.

Mae'n bosibl y caiff ein hasiantaethau partner, gan gynnwys y Gwasanaeth Iechyd Ysgolion, y Gwasanaethau Addysg a Phlant a Gyrfa Cymru, wybod eich bod yn addysgu eich plant y tu allan i'r system ysgolion.

Gallai rhai rhieni ddewis ymgysylltu â thiwtoriaid preifat neu oedolion eraill i'w cynorthwyo i ddarparu addysg addas, ond nid oes gofyniad iddynt wneud hynny. Fodd bynnag, erys y cyfrifoldeb i sicrhau bod gan diwtoriaid/athrawon gymwysterau addas a'u bod wedi bod trwy archwiliad angenrheidiol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gyda'r rhieni.

Y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014
Yn ogystal â'r Deddfau a grybwyllwyd yn flaenorol, mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 yn gosod y dyletswyddau canlynol ar Awdurdodau Lleol a chanddynt gysylltiadau â'r Addysg Ddewisol yn y Cartref.

3) Os oes gan awdurdod lleol achos rhesymol i amau fod plentyn yn ei ardal ar unrhyw bryd yn blentyn mewn perygl ac yn byw neu'n cynnig byw yn ardal awdurdod lleol arall (neu awdurdod lleol yn Lloegr), rhaid iddo roi gwybod i'r awdurdod arall.

(4) Yn y rhan hon, mae "plentyn mewn perygl" yn blentyn sydd - (a) yn cael neu mewn perygl o gael ei gam-drin, esgeuluso neu fathau eraill o niwed, a (b) gydag anghenion gofal a chefnogaeth (p'un a yw'r awdurdod yn bodloni unrhyw un o'r anghenion hynny ai peidio).

(5) At ddibenion y rhan hon, mae partner perthnasol awdurdod lleol yn – (a) rhywun sy'n bartner perthnasol yr awdurdod lleol at ddibenion adran 162; (b) tîm troseddau ieuenctid ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni'n syrthio o fewn ardal yr awdurdod.

(6) O ran darpariaeth am ddyletswydd awdurdod lleol i ymchwilio i blant mewn perygl, gweler adran 47 Deddf Plant 1989.

Eiriolaeth Pobl Ifanc
Gall yr holl bobl ifanc ddweud eu 'dweud' a gofyn am gyngor, arweiniad a chefnogaeth y Gwasanaeth Eiriolaeth Pobl Ifanc. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn: http://trosgynnal.org.uk/

Cwestiynau Cyffredin am Addysg Ddewisol yn y Cartref

Ydyw'n gyfreithlon? Ydy. Mae Addysg yn y Cartref yn gyfreithlon yn holl rannau'r DU. Nid oes angen i chi fod yn athro na meddu ar unrhyw gymwysterau arbennig eraill.

Sut mae dechrau arni? Os ydy'ch plant heb fod i'r ysgol erioed, **nid oes camau** i chi eu cymryd cyn dechrau addysg yn y cartref, fodd bynnag, fe'ch cynghorir i roi gwybod i'r ALl. Fodd bynnag, os ydy'ch plant yn yr ysgol, **rhaid i chi ddatgofrestru'n ffurfiol trwy ysgrifennu at y pennaeth** a dweud eich bod yn bwriadu addysgu eich plant yn y cartref.

All fy mhlentyn ddychwelyd i'r ysgol?
Gall. Gallwch wneud cais i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol trwy lenwi Ffurflen Trosglwyddo Ysgol neu drwy ffonio Derbyniadau Ysgolion ar 01824 708064 neu ar-lein yn www.sirddinbych.gov.uk. Nid oes sicrwydd y bydd lle'n dal i fod ar gael yn yr ysgol flaenorol y mynychodd eich plentyn.

Beth fydd yn digwydd pan fyddaf yn tynnu fy mhlant o'r ysgol? Bydd yr ALl yn cysylltu â chi ar ôl iddynt gael copi o'ch llythyr datgofrestru gan y pennaeth i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth addysgol a gynlluniwyd gennych.

Allaf addysgu plentyn gyda Datganiad o Anghenion Arbennig yn y cartref? Gallwch. Nid oes cyfraith yn gwahardd addysgu plant a chanddynt ddatganiad yn y cartref ar yr amod nad ydynt yn mynychu ysgol arbennig. Yn yr achos hwnnw, bydd angen cytundeb yr ALl arnoch. Fodd bynnag, mae angen i chi allu dangos y gallwch ddarparu ar gyfer yr anghenion arbennig hyn os bydd yr ALl yn gofyn.

Beth os bydd fy mhlentyn mewn ysgol arbennig? Os oes gan eich plentyn anghenion arbennig a'i fod yn mynychu ysgol arbennig, bydd angen i chi gael cytundeb yr awdurdod addysg lleol i ddatgofrestru a sicrhau y gallwch ddarparu ar gyfer ei anghenion arbennig.

Sut mae oedran ysgol gorfodol yn effeithio ar addysgwyr yn y cartref? Fel rhiant, rhaid i chi ddarparu addysg ar gyfer eich plant yn ystod yr "oedran ysgol gorfodol" (5 i 16 oed). Dywed y gyfraith y gall hyn fod adref. Daw addysg orfodol i ben ar y dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn y mae'ch plentyn yn cael ei ben-blwydd yn 16 oed.

A fyddaf yn cael fy archwilio neu fy monitro o gwbl? Bydd yr awdurdod lleol (ALl) yn cysylltu â chi'n flynyddol i gael gwybodaeth mewn perthynas â'r ddarpariaeth ac i gynnig cefnogaeth a chyngor. Byddwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth i ni, gallwch ddarparu tystiolaeth fod eich plant yn cael addysg effeithlon ac addas trwy:

- Ysgrifennu adroddiad;
- Darparu samplau o waith eich plant;
- Swyddog Awdurdod Lleol yn ymweld â'ch cartref gyda neu heb bresenoldeb eich plant;
- Cwrdd â Swyddog Awdurdod Lleol mewn lleoliad arall. (Rydym yn fwy na hapus i drefnu ystafell gyfarfod yn un o Swyddfeydd y Cyngor trwy drefniant ymlaen llaw).

Oes rhaid i fi addysgu'r Cwricwlwm Cenedlaethol? Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol ond yn berthnasol i ysgolion y wladwriaeth. Fel addysgwr yn y cartref, mae i fyny i chi a'ch plant **beth, sut** a **phryd** byddwch chi'n astudio.

Gallai nodweddion a awgrymir addysg effeithlon ac addas gynnwys:

- Ymwneud cyson rhieni neu ofalwyr arwyddocaol eraill;
- Presenoldeb athroniaeth neu ethos (heb fod yn athroniaeth gydnabyddedig o reidrwydd) gyda rhieni'n dangos ymroddiad, brwdfrydedd a chydnabyddiaeth o anghenion, agweddau a dyheadau'r plant;
- Cyfleoedd i gefnogi sgiliau llythrennedd a rhifol y plant;
- Y cyfle i'r plant gael eu hysgogi gan eu profiadau dysgu;
- Ymwneud mewn sbectrwm eang o weithgareddau sy'n briodol i gam datblygiad y plant;
- Mynediad i adnoddau a deunyddiau priodol;
- Y cyfle am lefel o weithgarwch corfforol priodol;
- Y cyfle i ryngweithio gyda phlant ac oedolion eraill.

All fy mhlentyn barhau i sefyll arholiadau? Gall. Gallwch drefnu i'ch plant sefyll arholiadau fel ymgeiswyr allanol mewn colegau addysg bellach lleol neu mewn ysgolion lleol. Bydd angen i chi gysylltu â'r coleg neu'r ysgol i wneud ymholiadau ynghylch pa arholiadau hoffech chi eu sefyll, y gost ac ydy hi'n bosibl eu sefyll yn yr ysgol/coleg. Nid oes grantiau ar gael i dalu am gostau arholiadau. Yn ogystal, gall disgyblion a addysgir yn y cartref wneud arholiadau ar-lein trwy IGCSEs. Gellir dod o hyd i wybodaeth am IGCSEs ar y gwefannau canlynol:
www.cie.org.uk/.../cambridge-secondary-2/cambridge-igcse/subjects

www.oxfordhomeschooling.co.uk/course/igcse Mae Oxford home schooling yn becyn sy'n costio yn dibynnu ar sawl TGAU fydd eich plant yn eu dilyn.

Yng Nghymru, mae gwybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn http://gov.wales/topics/educationandskills/?lang=cy Mae gwybodaeth am y cwricwlwm ac asesiadau cynradd ac uwchradd ar gael trwy'r ddolen gyswllt "Cwricwlwm ac Asesu". Hwyrach y bydd gennych ddiddordeb hefyd mewn edrych ar TGAU dan addysg a dysgu yn www.gov.uk. Mae'r safle hwn yn darparu gwybodaeth am addysg, prentisiaethau a hyfforddiant ar gyfer gwaith.

Mae Gwasanaeth Gyrfa Cymru ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc 13-19 oed sy'n byw yng Nghymru. Mae ei wasanaethau a'i gyfrifoldebau'n cwmpasu plant a phobl ifanc sy'n cael eu haddysgu yn y cartref. Mae gwybodaeth ar gael ar eu gwefan yn www.gyrfacymru.com

Mae **Curriculum online** www.curriculumonline.ie/en yn rhoi miloedd o adnoddau a gweithgareddau ar-lein perthnasol i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, Anghenion Arbennig a'r Blynyddoedd Cynnar i ddisgyblion, rhieni ac athrawon.

Gwefannau Defnyddiol

Gwefannau Addysg Ddewisol yn y Cartref Cenedlaethol:
www.education-otherwise.net
www.edyourself.org
www.ahomeeducation.co.uk

Byrddau Arholi:
www.jcq.org.uk
www.wjec.co.uk

Anghenion Addysgol Arbennig:
www.HE-special.org.uk
www.bdadyslexia.org.uk
www.autism.org.uk
www.ADHD.org.uk

Adnoddau:
www.tes.co.uk
www.senteacher.org
www.bbc.co.uk
www.curriculumonline.ie
www.gcsescience.com
www.learning.wales.gov.uk
http://hwb.wales.gov.uk

Cysylltwch â'r Swyddog Cynhwysiant sy'n gyfrifol am Addysg Ddewisol yn y Cartref (Richard Hatwood) ar 01824 708064, trwy e-bost ar Richard.hatwood@denbighshire.gov.uk neu drwy'r post yn y Gwasanaethau Addysg a Phlant, Lefel Tri, Neuadd y Sir, Rhuthun. LL15 1YN os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch.